

Etholiadau llywodraeth leol Cymru 2022

Beth yw blaenoriaethau ymgyrch UNSAIN?

Dangosodd pob gweithiwr awdurdod lleol eu hymroddiad i gadw gwasanaethau hanfodol ar waith trwy gydol y pandemig. Gwyddom mai gwasanaethau cyhoeddus yw'r glud sy'n dal ein cymunedau ynghyd, a buddsoddi yma yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.

Dyma flaenoriaethau UNSAIN Cymru ar gyfer etholiadau lleol 2022, er mwyn gwneud ein trefi yn lleoedd hapusach, tecach ac iachach i bawb. Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ar gyfer y cyngor ddangos eu bod yn rhoi blaenoriaethau pobl sy'n gweithio yn gyntaf trwy addo eu cefnogaeth.

The logo for UNSAIN Cymru Wales features the word 'UNSAIN' in a bold, white, sans-serif font. A stylized, white, wavy line flows over the letters, starting from the left and ending under the 'N'. Below 'UNSAIN', the words 'Cymru Wales' are written in a white, cursive script font.

UNSAIN
Cymru Wales

1 Dod â gwasanaethau ar gontract allanol yn ôl o dan reolaeth uniongyrchol y cyngor

Mae llawer o gynghorau ledled Cymru bellach yn cydnabod y bydd dod â gwasanaethau ar gontract allanol yn ôl a'u rhedeg yn uniongyrchol yn darparu gwasanaethau gwell, oherwydd byddent yn canolbwyntio'n llwyr ar yr hyn sydd ei angen ar bobl leol, ac mae yna atebolrwydd democrataidd.

Dylai pob ceiniog sy'n cael ei gwario ar wasanaethau lleol fod yn arian a fuddsoddir er lles pobl leol, ac nid yn cael ei dynnu o'r gymuned fel elw preifat.

Mae gwasanaethau ar gontract allanol yn gostwng cyflog ac amodau gwaith y gweithlu lleol, tra bod y gost i ddefnyddwyr yn codi.

Mae Castell-Nedd Port Talbot, Powys, Blaenau Gwent a Sir Benfro, yn rhan o fudiad cynyddol o gynghorau ledled y DU sydd wedi gwneud penderfyniadau allweddol er lles eu hetholwyr, gan ddod â gwasanaethau hamdden neu ofal cymdeithasol yn ôl yn fewnol.



2 Cynghorau'n gweithredu gofal cymdeithasol yn uniongyrchol. Dim mwy o gomisiynu

Mae dod â chomisiynu i mewn i ofal cymdeithasol wedi bod yn fethiant i'r gweithlu gofal a'r bobl hynny sydd angen cymorth gofal.

Mae cyflwyno'r posibilrwydd o wneud elw wedi arwain at dorri corneli ac mae'r gweithlu, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, yn derbyn cyflog isel iawn.

Dylai'r rhan fwyaf o ofal cymdeithasol fod yn rhan o gylch gwaith llywodraeth leol a dod o dan gyllideb llywodraeth leol.

Byddai Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn gosod safonau ar gyfer y diwydiant, gan sicrhau cysondeb o ran ehangder ac ansawdd gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Byddai bargeinio ar y cyd o fewn y sector ar lefel Cymru gyfan yn helpu i osod cyflogau teg a chontract cyflogaeth safonol ar gyfer tâl salwch, oriau cytundebol a thâl am yr holl oriau ar ddyletswydd, gan gynnwys ar gyfer 'cysgu i mewn', amser teithio, amser i ffwrdd, yn ogystal â fframwaith cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad.

Byddai creu safonau gwaelodlin statudol yn eu hanfod yn dychwelyd gofal cymdeithasol ble y dylai fod: o dan reolaeth uniongyrchol llywodraeth leol.



3 Gwerthuso ac adolygu swyddi Cymru gyfan er cysondeb

Mae angen i bob gweithle fod â system deg a thryloyw ar gyfer asesu pa gyflog y dylid ei dalu ar gyfer gwahanol swyddi. Felly, mae'n allweddol i bob cyflogwr sicrhau bod proses gwerthuso cyflogau teg a thryloyw ar waith.

Mae dros ddegawd ers i'r math hwn o broses gwerthuso swyddi gael ei rhoi ar waith yn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac mae angen dybryd bellach i adolygu a diweddarau'r broses hon.

Mae UNSAIN yn galw ar gynghorau i ddatblygu a chytuno ar broses gwerthuso swyddi wedi'i diweddarau ar gyfer Cymru gyfan, er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb ar draws holl swyddi awdurdodau lleol Cymru, a disodli'r 22 fersiwn dameidiog sydd ar waith ar hyn o bryd.

4 Dod â sgandal tâl yn-ystod-y-tymor i staff cymorth ysgolion i ben

Mae miloedd o staff, menywod yn bennaf, ar gyflog isel yng Nghymru yn dioddef anghyfiawnder pellach yn sgil cyflog yn-ystod-y-tymor. Cânt eu talu am 39 - 43 wythnos o'r flwyddyn, wedi'i guddio trwy gael eu talu dros 12 taliad misol cyfartal, gan gronni gwyliau blynyddol dros yr amser hwnnw sy'n rhaid ei gymryd yn ystod gwyliau ysgol. Nid yw staff ategol yn cael eu talu am y chwe wythnos dros yr haf, ond maent ynghlwm â'r ysgol ac ni allant wneud cais am fudd-dâl nac ymgymryd ag unrhyw swydd arall yn ystod y cyfnod hwn. Caiff penaeithiad ac athrawon eu talu am flwyddyn waith lawn o 52 wythnos.

Misoedd yr haf yw'r rhai drutaf, heb sôn am yr effaith andwyol y mae hyn yn ei gael ar bensiynau yn ddiweddarach mewn bywyd. Rhaid unioni hyn.



5 Llywodraeth leol yn mynd i'r afael â newid hinsawdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylai sector cyhoeddus Cymru arwain y ffordd at allyriadau carbon sero net erbyn 2030, trwy osod targedau uchelgeisiol.

Dylai llywodraeth leol fod ar flaen y gad, ac mae gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus am fod yn rhan o'r sgwrs a'r cynllunio hwnnw hefyd, gan annog awdurdodau i helpu ag ysgogi newid yn eu cymunedau, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei brynu trwy eu cadwyn gyflenwi a bod yn gyflogwyr gwyrdd enghreifftiol.

6 Yr angen brys am adeiladu tai cymdeithasol a thai cyngor

Mae prinder tai fforddiadwy wedi creu argyfwng tai, gan osod pwysau annioddefol ar deuluoedd sydd eisoes yn ei chael yn anodd, ac wedi crebachu cyfleoedd i bobl ifanc. Rhaid i awdurdodau lleol adeiladu miloedd o dai cyngor newydd i ddiwallu'r angen am gartrefi. Bydd hyn hefyd yn creu swyddi ac yn hybu'r economi. Bydd cartrefi gwyrdd, wedi'u hinswleiddio'n dda ac yn isel o ran eu defnydd o ynni'n ein helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.



#BlaenoriaethauUNSAIN #AddewidionCyng

7 Buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus i adeiladu Cymru decach

Rhaid parhau â chyllido ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ar lefel uwch na chwyddiant er mwyn buddsoddi mewn gwella gwasanaethau, ac nid oes angen am unrhyw doriadau.

Mae toriadau llym mewn gwariant dros y degawd diwethaf wedi niweidio darpariaeth gwasanaethau'r cyngor ac wedi niweidio ein cymunedau o ganlyniad i hynny. Dylid buddsoddi'r arian ychwanegol a ddarparwyd i gynghorau mewn pethau fel gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd - wrth i ni ddod allan o Covid mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i wella iechyd meddwl a chorfforol pobl.

8 Mae gwerthfawrogi undebau llafur yn golygu gwell gwasanaethau

Bydd gosod gwerth ar undebau llafur, yr arbenigedd maent yn ei gynnig, ynghyd â chynnwys gweithwyr ym mhob penderfyniad strategol, yn arwain at well cynllunio a gwasanaethau gwell i'r cyhoedd.

Mae partneriaeth gymdeithasol ar agenda Llywodraeth Cymru, a dylai gael ei gwreiddio mewn cynghorau. Er mwyn i hyn weithredu'n iawn, mae'n rhaid i ymgysylltu fod yn ystyrlon; a rhaid i undebau gael eu cynnwys yn gynnar a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w safbwyntiau.